# NDA Monthly Update

## September 2017

### Summary

- Update on competition inquiry and Magnox contract termination
- Supply chain awards deadline looms
- £3 million competition shortlist announced
- PhD bursaries available
- Bradwell completes waste programme
- Safety awards for Sellafield
- TV cameras visit Sellafield
- Charity recycling company wins Sellafield contract
- Dounreay’s oldest reactor to be demolished
- Chapelcross boilers on the way down
- David Peattie appointed Chairman of nuclear shipping business
- NDA annual report now published
- Young nuclear professionals share experience

### Diary Dates 2017

| | |
|---|---|
| • NDA Stakeholder Summit, Cumbria | 17-18 September |
| • LLWR Annual Customer Forum, Penrith | 4-5 October |
| • NDA Estate Supply Chain Event, Manchester | 2 November |
| • World Nuclear Symposium 2017, London | 13-15 December |

NDA
Nuclear
Decommissioning
Authority

# NDA Monthly Update – September 2017

## Update on inquiry into Magnox competition

The NDA is co-operating fully with the Holliday Inquiry into the 2014 Magnox contract, and an interim report is expected towards the end of the year. The inquiry was announced by Energy Secretary Greg Clark in March, following the NDA's decision to settle the claims with EnergySolutions and Bechtel.  This ended the court proceedings and limits further risk to the taxpayer. The NDA also announced its decision to terminate, by mutual agreement with the Cavendish Fluor Partnership (CFP), the Magnox PBO contract in September 2019.

Weblink:  Announcement on Magnox contact

## Deadline approaches for supply chain awards

The 7 September deadline is approaching to submit final entries for the NDA estate's annual awards, which will be presented during the supply chain event next month.  The categories include skills, innovation, collaboration and exports. Meanwhile, registration remains opens for the 2017 NDA Estate Supply Chain Event, which takes place at EventCity in Manchester on 2 November. Last year's event attracted 1,500 visitors from the UK and overseas, and featured 260 exhibition stands.  Businesses of all sizes are welcome, especially those from the Small and Medium-sized Enterprise community.

Weblink:  Register now for supply event

## £3 million competition shortlists innovative ideas

Fifteen ideas have been shortlisted in a £3 million competition to find new technologies for cleaning up Sellafield hazards. The shortlisted entries, many from companies new to nuclear, now have three months to develop ideas for a chance to move on to the next stage. The competition, run by the NDA and the UK government's Innovate UK, is awarding an initial £750,000 to 15 newly formed consortia to help them develop ideas on dismantling a large number of highly radioactive 'cells' at Sellafield's two reprocessing plants which are set to close by 2020. More will be revealed when the winners are picked in December and begin building prototypes, supported by the remaining funds.

Weblink:  Innovation ideas shortlisted

## PhD bursaries

The NDA is seeking applications for PhD research proposals related to nuclear decommissioning. The deadline is 9 October 2017. Up to £500,000 is annually available, via the bursary scheme, for proposals based on the following themes:  characterisation, waste packaging and storage, land quality, decommissioning, spent fuel and nuclear material, plus open criteria including robotics and aqueous effluents. Project proposals with a total cost to NDA of less than £100,000 will be considered.

Weblink:  Apply for bursaries

# NDA Monthly Update – September 2017

## Bradwell completes waste programme

All Fuel Element Debris (FED) waste at Bradwell has now successfully dealt with. The FED, consisting largely of the metallic outer casing of uranium fuel elements, is a major source of Intermediate Level Waste, however more than half was re-classified as Low Level Waste (LLW) following a collaborative project to extract and segregate material. This enabled more cost-effective treatment and disposal, while also saving two years off a project to dissolve the FED in an acid solution, reducing volumes by 90%.

Weblink: Waste programme complete

## Gold safety awards for Sellafield

Sellafield Ltd has been awarded nine gold awards by the Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA). The RoSPA Health and Safety Awards are among the world's most prestigious safety accolades. They recognise safety performance in 2016/17, a year in which Sellafield made significant progress in the clean-up of four of Europe's most hazardous buildings, the Legacy Ponds and Silos.

Weblink: Sellafield's nine gold awards

## TV cameras visit legacy Sellafield store

Cameras from ITV Border have been looking at work on Sellafield's Pile Fuel Storage Silo (PFCS), where the first hole was cut earlier this year to retrieve waste that has been in storage for many decades. Six holes will be cut in total, covered by six doors which will seal the waste inside until it can be moved. The PFCS was built in the 1950s and getting the waste out of the building is one of Sellafield's highest priorities. Waste retrievals are due to begin in 2019.

Weblink: Holes cut in Sellafield waste store

## Charity recycling company wins Sellafield contract

A waste recycling company will open a new facility and create local jobs in West Cumbria, having won a contract with Sellafield Ltd. 'Recycling Lives' will recycle metal from the nuclear site, offering jobs and training opportunities at a new depot in Workington. The company will also set up a food distribution charity with centres throughout Cumbria, which will also need staff and volunteers.

Weblink: Charitable recycling company wins Sellafield contract

## Dounreay's oldest reactor to be demolished

It is 60 years since the first criticality was achieved in Scotland using a test rig at Dounreay. Now the site's decommissioning team is marking that milestone by taking a major step towards demolishing the oldest reactor that remains at the former fast reactor research centre. Companies are being invited to bid for a contract to demolish the

Dounreay Materials Test Reactor (DMTR) which became Scotland's first operational reactor in 1958.

Weblink: Farewell to Dounreay's oldest reactor

## The final four at Chapelcross

A three year-long Chapelcross project, which is set to dramatically change the skyline, has reached a major milestone. A decade after the iconic cooling towers at Scotland's first nuclear power station were spectacularly demolished, work to remove the top sections of the last four heat exchangers has been completed. Chapelcross operated safely for 35 years and the 16 boilers, or 'heat exchangers,' played a vital role, producing steam to drive turbines.

Weblink: Chapelcross boiler project

## David Peattie appointed as Chairman of shipping company

NDA Chief Executive, David Peattie has been appointed as the new Chairman of specialist nuclear shipping company Pacific Nuclear Transport Ltd (PNTL). PNTL is owned by NDA subsidiary International Nuclear Services (INS), French nuclear company AREVA and a consortium of Japanese nuclear companies. David takes up the role following the departure of outgoing PNTL Chairman John Clarke.

Weblink: PNTL new chairman announced

## Annual report now published

The NDA has published its annual report and accounts, showing a year of strong progress. The report reviews a strong year of progress for the NDA as it advances its mission to clean up and decommission 17 of the UK's oldest nuclear sites.

Weblink: NDA Annual Report and Accounts 2016

## Young nuclear professionals share world-wide expertise

Two NDA staff joined young people from 25 different countries to take part in a week of site visits, discussions and presentations at the European Nuclear Young Generation Forum (ENYGF) in Manchester. Diversity was the key in terms of technology, people and cultures; many of the presentations spoke of new, novel reactor types, challenges faced across the industry and how a new mind-set is required to solve them.

Weblink: Delegates share nuclear learning

# Diweddariad Misol yr NDA

## Medi 2017

### Crynodeb

- Y diweddaraf ar ymchwiliad cystadleuaeth a therfynu contract Magnox
- Y dyddiad cau ar gyfer gwobrau'r gadwyn gyflenwi yn nesáu
- Cyhoeddi rhestr fer cystadleuaeth gwerth £3 miliwn
- Bwrsariaethau PhD ar gael
- Bradwell yn cwblhau'r rhaglen gwastraff
- Gwobrau diogelwch i Sellafield
- Camerâu teledu yn ymweld â Sellafield
- Cwmni ailgylchu elusennol yn ennill contract Sellafield
- Adweithydd hynaf Dounreay i gael ei ddymchwel
- Boeleri Chapelcross ar fin cael eu dymchwel
- Penodi David Peattie yn Gadeirydd busnes morgludo niwclear
- Adroddiad blynyddol yr NDA wedi'i gyhoeddi
- Gweithwyr ifanc proffesiynol y byd niwclear yn rhannu eu profiadau

Nuclear Decommissioning Authority

## Dyddiadau i'r Dyddiadur

- Uwchgynhadledd i Randdeiliaid yr NDA, Cumbria 17-18 Medi
- LLWR - Fforwm Blynyddol Cwsmeriaid, Penrith 4-5 Hydref
- Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA, Manceinion 2 Tachwedd
- Symposiwm Niwclear y Byd 2017, Llundain 13-15 Rhagfyr

## Y diweddaraf ar yr ymchwiliad i gystadleuaeth Magnox

Mae’r NDA yn cydweithio'n llawn gydag Ymchwiliad Holliday i gontract Magnox 2014, a disgwylir adroddiad interim tua diwedd y flwyddyn. Cyhoeddwyd yn ymchwiliad gan yr Ysgrifennydd Ynni Greg Clark ym mis Mawrth yn dilyn penderfyniad NDA i setlo hawliadau gydag EnergySolutions a Bechtel.  Daeth hyn â’r achos llys i ben ac mae’n cyfyngu ar risg pellach i’r trethdalwr. Hefyd, cyhoeddodd yr NDA ei benderfyniad i derfynu, drwy gytundeb ar y cyd gyda’r Cavendish Fluor Partnership (CFP), gontract Magnox PBO ym mis Medi 2019.

Dolen:  Cyhoeddiad ar gontract Magnox

## Y dyddiad cau ar gyfer gwobrau’r gadwyn gyflenwi yn nesáu

Mae’r dyddiad cau sef 7 Medi yn nesáu ar gyfer cyflwyno'r cynigion terfynol ar gyfer gwobrau blynyddol ystâd yr NDA, a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod digwyddiad y gadwyn fwyd fis nesaf.  Mae'r categorïau yn cynnwys sgiliau, arloesedd, cydweithio ac allforion. Yn y cyfamser, mae’r broses gofrestru yn parhau’n agored ar gyfer Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA 2017, a gynhelir ar 2 Tachwedd yn EventCity ym Manceinion. Daeth 1,500 o ymwelwyr o’r DU a thramor i'r digwyddiad y llynedd, ac roedd 260 o stondinau arddangos yno.  Mae croeso i fusnesau o bob maint, yn enwedig y rheini sy'n dod o'r gymuned Busnesau Bach a Chanolig.

Dolen:  Cofrestru nawr ar gyfer y digwyddiad cyflenwi

## Cystadleuaeth £3 miliwn yn rhoi syniadau arloesol ar restr fer

Mae pymtheg o syniadau wedi eu rhoi ar y rhestr fer mewn cystadleuaeth £3 miliwn i ganfod technolegau newydd ar gyfer cael gwared â pheryglon Sellafield. Mae gan y cynigion sydd ar y rhestr fer, llawer ohonynt gan gwmnïau sy’n newydd i’r byd niwclear, dri mis i ddatblygu syniadau er mwyn cael cyfle i symud ymlaen i’r cam nesaf. Mae’r gystadleuaeth, sy’n cael ei rhedeg gan yr NDA ac Innovate UK Llywodraeth y DU, yn dyfarnu £750,000 cychwynnol i 15 o gonsortia sydd newydd eu ffurfio i'w cynorthwyo i ddatblygu syniadau ar ddatgymalu nifer sylweddol o ‘gelloedd’ hynod ymbelydrol yn y ddau safle ailbrosesu yn Sellafield, sydd i fod i gau erbyn 2020. Datgelir mwy pan gaiff yr enillwyr eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr a dechrau gweithio ar brototeipiau, gyda chefnogaeth y cyllid sy’n weddill.

Dolen:  Syniadau arloesol ar restr fer

## Bwrsariaethau PhD

Mae’r NDA yn gwahodd ceisiadau ar gyfer cynigion ymchwil PhD yn gysylltiedig â datgomisiynu niwclear.  Y dyddiad cau yw 9 Hydref 2017. Mae hyd at £500,000 ar gael bob blwyddyn, drwy’r cynllun bwrsariaethau, ar gyfer cynigion yn seiliedig ar y themâu canlynol:  Pennu nodweddion, pecynnu a storio gwastraff, ansawdd tir, datgomisiynu, gweddillion tanwydd a deunydd niwclear, yn ogystal â meini prawf agored yn cynnwys

roboteg ac elifiant dyfrllyd. Bydd cynigion ar gyfer prosiectau gyda chyfanswm cost is na £100,000 i'r NDA yn cael eu hystyried.

Dolen:  Ymgeisio am fwrseriaethau

## Bradwell yn cwblhau'r rhaglen gwastraff

Bellach, ymdriniwyd yn llwyddiannus â'r holl wastraff Gweddillion Elfennau Tanwydd (FED) yn Bradwell.  Mae'r FED, sy'n cynnwys yn bennaf gasinau metalig allanol elfennau tanwydd wraniwm yn un o brif ffynonellau Gwastraff Lefel Ganolraddol, fodd bynnag cafodd dros hanner ei ailddosbarthu fel Gwastraff Lefel isel yn dilyn prosiect cydweithredol i dynnu a gwahanu deunydd.  Yr oedd hyn yn galluogi trin a gwaredu yn y modd mwyaf cost-effeithiol, ac ar yr un pryd y mae wedi arbed dwy flynedd oddi ar brosiect i doddi'r FED mewn hylif asid, gan leihau 90% ar y gwastraff.

Dolen: Rhaglen gwastraff wedi'i chwblhau

## Gwobrau diogelwch aur i Sellafield

Dyfarnwyd naw gwobr aur i Sellafield Cyf gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA). Mae Gwobrau Iechyd a Diogelwch RoSPA ymysg gwobrau diogelwch mwyaf anrhydeddus yn y byd. Maent yn cydnabod perfformiad diogelwch yn 2016/17, blwyddyn pryd y gwnaeth Sellafield gynnydd sylweddol wrth gael gwared â phedwar o adeiladau peryclaf Ewrop, sef y 'Legacy Ponds' a'r Seilos.

Dolen:  Naw gwobr aur Sellafield

## Camerâu teledu yn ymweld â hen storfa Sellafield

Bu camerâu o ITV Border yn edrych ar waith yn Seilo Storio Tanwydd Pentwr (PFCS) Sellafield, lle y torrwyd y twll cyntaf eleni i waredu gwastraff a fu'n cael ei storio ers degawdau lawer. Caiff cyfanswm o chwe thwll eu torri, a fydd yn cael eu gorchuddio gan chwe drws a fydd yn selio'r gwastraff y tu mewn hyd nes y gellir ei dynnu oddi yno. Adeiladwyd yn PFCS yn ystod yr 1950au, ac mae cael gwared â'r gwastraff o'r adeilad yn un o brif flaenoriaethau Sellafield. Mae'r gwaith o dynnu'r gwastraff i fod i ddechrau yn 2019.

Dolen:  Torri tyllau yn storfa gwastraff Sellafield

## Cwmni ailgylchu elusennol yn ennill contract Sellafield

Bydd cwmni ailgylchu gwastraff yn agor cyfleuster newydd ac yn creu swyddi lleol yng Ngorllewin Cumbria, wedi iddo ennill contract gyda Sellafield Cyf. Bydd 'Recycling Lives' yn ailgylchu metel o'r safle niwclear, gan gynnig swyddi a chyfleoedd hyfforddi mewn depo newydd yn Workington. Bydd y cwmni hefyd yn sefydlu elusen ddosbarthu bwyd gyda chanolfannau ledled Cumbria, a fydd hefyd angen staff a gwirfoddolwyr.

Dolen:  Cwmni ailgylchu elusennol yn ennill contract Sellafield

# Diweddariad Misol yr NDA – Medi 2017

## Adweithydd hynaf Dounreay i gael ei ddymchwel

Mae'n 60 mlynedd ers cyflawni'r critigolrwydd cyntaf yn yr Alban gan ddefnyddio rig profi yn Dounreay. Yn awr mae tîm datgomisiynu'r safle yn nodi'r garreg filltir drwy gymryd cam sylweddol tuag at ddymchwel yr adweithydd hynaf sy'n dal i sefyll yn y gyn-ganolfan ymchwil adweithydd cyflym. Gwahoddir cwmnïau i ymgeisio am gontract i ddymchwel Adweithydd Profi Deunyddiau Dounreay (DMTR), a ddaeth yn adweithydd gweithredol cyntaf yr Alban yn 1958.

Dolen: Ffarwelio ag adweithydd hynaf Dounreay

## Pedwar olaf Chapelcross

Mae prosiect tair blynedd yn Chapelcross, a fydd yn creu newid dramatig i'r nenlinell, wedi cyrraedd carreg filltir bwysig. Ddegawd ar ôl i'r tyrau oeri eiconig yng ngorsaf niwclear gyntaf yr Alban gael eu dymchwel yn drawiadol, mae'r gwaith o dynnu rhannau uchaf y pedwar cyfnewidiwr gwres olaf wedi ei gwblhau. Bu Chapelcross yn gweithredu'n ddiogel am 35 mlynedd ac roedd yr 16 boeler neu 'gyfnewidwyr gwres' yn chwarae rôl hynod bwysig wrth gynhyrchu stêm i yrru'r tyrbinau.

Dolen: Prosiect boeleri Chapelcross

## Penodi David Peattie yn Gadeirydd cwmni morgludo

Mae Prif Weithredwr NDA, David Peattie, wedi ei benodi'n Gadeirydd newydd y cwmni morgludo niwclear arbenigol Pacific Nuclear Transport Ltd (PNTL). Mae PNTL ym mherchnogaeth is-gwmni NDA sef International Nuclear Services (INS), cwmni niwclear o Ffrainc AREVA a chonsortiwm o gwmnïau niwclear o Japan. Mae David yn ymgymryd â'r rôl yn dilyn ymadawiad Cadeirydd presennol PNTL, John Clarke.

Dolen: Cyhoeddi cadeirydd newydd PNTL

## Adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi

Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei adroddiad a'i gyfrifon blynyddol, sy'n dangos blwyddyn o gynnydd cadarn. Mae'r adroddiad yn adolygu blwyddyn o gynnydd i'r NDA wrth iddo symud ymlaen â'i genhadaeth i lanhau a datgomisiynu 17 o safleoedd niwclear hynaf y DU.

Dolen: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol NDA 2016

## Gweithwyr ifanc proffesiynol y byd niwclear yn rhannu arbenigedd byd-eang

Ymunodd dau aelod o staff yr NDA â phobl ifanc o 25 o wahanol wledydd i gymryd rhan mewn wythnos o ymweliadau â safleoedd, trafodaethau a chyflwyniadau yn Fforwm Niwclear Ewropeaidd y Genhedlaeth Ifanc (ENYGF) ym Manceinion. Amrywiaeth oedd yr allwedd o ran technoleg, pobl a diwylliannau; yr oedd llawer o'r cyflwyniadau yn sôn

am fathau newydd o adweithyddion, yr heriau a wynebir ar draws y diwydiant a'r angen am feddylfryd newydd i'w datrys.

Dolen: Cynadleddwyr yn rhannu dysgu niwclear